Adroddiad Cyfarfod 10:01:18
Brethyn Cartref

Croesawyd pawb gan y llywydd Liz. Dymunodd Flwyddyn Newydd Dda i'r aelodau. Llongyfarch Ceri (merch Jen) a Sam ar ei dyweddïad, hefyd Anita yn nain efo Ffion a Gavin wedi cael hogyn bach, Caleb Emyr.

Gobeithio fod Gwyneth (Pentir) yn gwella ar ôl llawdriniaeth, a Nora a Nan ar ôl bod ddim yn dda.

Derbyniwyd £50.00 gan Banel Cyfryngau Cymru, gobeithio fod pawb yn fodlon dal i lenwi'r holiaduron.

Bydd hyfforddiant y diffib ar gael diwedd mis Ionawr, pawb sydd â diddordeb cysylltwch â Liz.

Gofynnir i bawb ddwad a £15.00 i'r cyfarfod nesaf i dalu am y bwffe Gwyl Ddewi yn y Castell yng Nghaernarfon.

Cafwyd noson bleserus dan ofal Cecille, Gwenan a Mair (Price). Soniodd Cecille am ei chartref yn Bordeaux (mewn Cymraeg, ei thrydedd iaith), tra cawsom hanes ei hamser yn Calcutta gan Gwenan a dangosodd Mair yr offer Braille oedd ei ewythr yn defnyddio. Diolchwyd iddynt gan Rhian